CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR : COFNODION CYFARFOD
5ed Hydref 2022, yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: D Gwyn, N. Jones, A Mummery, J Jones, O Evans, R. Williams	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Cyng. D. Idriswyn Roberts, Ll. Roberts, Dyfed Jones
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
4.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 07/09/22. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir, AM yn cynnig a NJ yn eilio.
5.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
5.1 *(8.0)*	**Ymddiswyddiad y Clerc**. Yn anffodus nid oedd y cyn Glerc yn bresennol yn y cyfarfod i roi adroddiad ariannol i'r aelodau nac adrodd ar y sefyllfa gyfredol ar eitemau megis cyfethol aelodau a'r cae chwarae. Mae'r cyn-Glerc wedi rhoi addewid i drosglwyddo'r holl ddogfennau perthnasol i'r Cadeirydd erbyn diwedd yr wythnos.
5.2 *(9.1)*	**Hysbysebu swydd y Clerc** Nid oes unrhyw gais wedi dod i law ar ôl hysbysu'r swydd ar dudalen Facebook y Cyngor. Cynigwyd enwau ar gyfer llenwi'r swydd a bydd y Cyngor yn cysylltu â'r rhain er mwyn gweld os oes ganddynt ddiddordeb yn y swydd.
5.3	**Gor yrru a materion diogelwch ffyrdd** Dal heb gael unrhyw ohebiaeth gan John Morris.
5.4 ***(****7.3)*	**Deddf Llywodraeth Leol.** Trafodwyd y ddogfen a phenderfynwyd ar y canlynol • peidio bod yn Gyngor Cymuned cymwys. • Symud i gyfarfodydd aml-leoliad unwaith mae sefyllfa rhyngrwyd Penmynydd yn gwella. • Rôl y Clerc newydd fydd sicrhau cyfranogi mewn cyfarfodydd. • Penderfynwyd defnyddio cynlluniau hyfforddi Un Llais Cymru a neilltuo cyllid ar gyfer cyrsiau penodol ee hyfforddiant sefydlu sylfaenol i gynghorwyr. Rhaid nodi bod diffyg cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn bryder.
5.5 *(7.1)*	**Amser cychwyn cyfarfodydd.** Cafwyd pleidlais a phenderfynwyd cadw 19:00 fel amser cychwyn cyfarfodydd.
5.6 *(7.2)*	**Cronfa Cymuned Tesco a ffynonellau arian eraill** : Mae'r Cadeirydd wedi cychwyn y broses o gofrestru hefo cynllun cronfa cymuned Tesco ond rhaid i'r brif ymgeisydd fod â mynediad i gyfrif banc y Cyngor. Ffynonellau posib eraill am arian yw PlayQuest, ASDA, CO-OP ac Ymddiriedolaeth Elusennol Môn. Y Cadeirydd am wneud ymholiadau.
6.0	**Ceisiadau Cynllunio** : Oedd hi'n rhy hwyr i fynegi barn ar y ddau gais isod. Yr ail gais (Castellior) wedi ei ganiatáu. • **FPL/2022/183**: Cais llawn ar gyfer codi uchder y sied bresennol yn ogystal a chodi golchydd iard newydd yn Bryn Hyfryd Penmynydd. **https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000Tb9FqUAJ/fpl2022183?language=cy** • **FPL/2022/205:** Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer cadw gwellt yn Castellior, Ffordd Penmynydd *(siawns ein bod ni'n rhy hwyr i ymateb i'r un yma)* **https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000TbB0UUAV/fpl2022205?language=cy**

CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR : COFNODION CYFARFOD
5ed Hydref 2022, yn Y Ganolfan, Penmynydd

7.0	**Gohebiaeth Ychwanegol** : Dim
8.0	**Materion Eraill**
8.1	**Sul y Cofio :** Bydd NJ yn cynrychioli'r Cyngor yng ngwasanaeth Sul y Cofio Llanfairpwll. Diolchwyd i AM am brynu torch ar ran y Cyngor.
9.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Diweddariad gan DIR am waith Wil Adams, Menter Môn a'i waith yn ceisio chwilio am gynllun i ddarparu cyswllt effeithiol i'r we yn ardal Penmynydd.
9.2	Diweddariad gan aelod o bwyllgor yr Elusendai am y cyfarfod diweddaraf
10.0	**Dyddiad y cyfarfod nesaf *09/11/22** * SYLWER, gan fod dydd Mercher cyntaf y mis yn glanio yng nghanol gwyliau hanner tymor penderfynwyd symud cyfarfod Tachwedd i ail ddydd Mercher y mis.
Llofnod: Cadeirydd	**Dyddiad: 10/11/22**